



Homes4U a gwaith y criw...

Beth yw cynllun Homes4U?

Homes4U yw'r cynllun y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio i hysby-sebu a dosbarthu tai cymdeithasol yn y Fro. Mae'n rhestr aros ar gyfer tai cyffredin sy'n cael ei rhedeg ar y cyd gan bedair cymdeithas dai'r ardal.

Gosod tai fforddiadwy ar gyfer teuluoedd ac unigolion 'anghenus' nad oes modd iddynt dalu am gartref yw nod Homes4U. Gallai unrhyw un sy'n methu â chael hyd i gartref addas ar y farchnad agored am rent neu bris y medr ei fforddio, fanteisio ar dai fforddiadwy. Caiff tenantiaid sydd am symud tŷ ac yn byw mewn tai cymdeithasol eisoes, hefyd ymuno â'r cynllun.

Beth ydych chi'n ei olygu wrth 'osod tai ar sail dewis'?

Mae system gosod tai ar sail dewis yn rhoi hawl i denantiaid a darpar denantiaid gynnig am y tai sydd o ddiddordeb iddynt yn hytrach nag yn eu gorfodi i dderbyn beth bynnag a gynnigir id-dynt.

Mae gan ymgeiswyr fwy o reolaeth dros y broses osod o dan y system hon, am y bydd ganddynt ddewis o dai, a chyfle i ddweud lle'n union yr hoffent fyw. Mae hyn o fantais hefyd i gymunedau, am y bydd ymgeiswyr bob amser yn cynnig am dai mewn ardal sy'n apelio atynt, a hynny, fel arfer, am eu bod yn byw neu'n gweithio yno eisoes neu'n perthyn i rywun sy'n byw yno.

Beth yw cofrestr dai gyffredin?

Un rhestr aros ar gyfer pawb sy'n aros am gartref yn y Fro yw cofrestr dai gyffredin. Am fod y Cyngor yn rheoli Homes4U ar ran y cymdeithasau tai, bydd tai cymdeithasol ar rent, yn rhai cyngor ac yn rhai cymdeithasau tai fel ei gilydd, yn cael eu hys-bysebu a'u dosbarthu yn yr un ffordd.

Caiff aelodau Homes4U gynnig am dai sydd ar gael nid yn unig gan y Cyngor ond hefyd gymdeithasau tai Hafod, Newydd, Unit-ed Welsh a Wales and West. Un ffurflen yn unig sydd i'w llenwi, ac nid oes rhaid cofrestru gyda phob sefydliad ar wahân.

Pwy sy'n gymwys i ymaelodi â Homes4U?

Caiff unrhyw un dros 16 oed sydd am rentu cartref yn y Fro fod yn aelod o Homes4U.

Bydd Homes4U yn defnyddio system bandiau blaenoriaeth sy'n rhoi blaenoriaeth aur i'r rhai y mae angen cartref arnynt ar frys, a bandiau blaenoriaeth arian ac efydd i rai llai anghenus.

Teuluoedd sy'n ddigartref, sy'n ymdopi â phroblem feddygol, sy'n byw mewn lle rhy fach neu ry fawr, a rhai mewn cartrefi sy'n berygl go iawn i'w hiechyd a fydd yn cael y flaenoriaeth fwyaf.

Beth am bobl sy'n byw yn y wlad?

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod problemau penodol ynghlwm wrth ddod o hyd i dai yn y Fro wledig – e.e. rhent uchel eiddo preifat, cael hyd i eiddo sydd wedi'i addasu'n briodol, gadael tŷ clwm ac ati.

Mae problemau tai yn y Fro wledig wedi'u cuddio'n aml, am fod pobl yn eu datrys yn eu ffyrdd eu hunain neu am na wyddant am Homes4U.

“Mynnu Prynu yw'r cynllun a fydd yn dosbarthu'r tai cymdeithasol ar rent sy'n perthyn i'r Cyngor a Chymdeithasau Tai ac yn cael eu rheoli ganddynt.”

Er mwyn ymateb i hyn, byddwn yn gweithredu Polisi Gosod Lleol wrth ymdrin â datblygiadau tai newydd yn y wlad. Mae hyn yn golygu y caiff pobl a chanddynt gysylltiad â thref neu ben-tref gwledig penodol flaenoriaeth wrth gynnig am dai yno, ni waeth pa fand sydd ganddynt.

Mae gan y Cyngor Alluogwr Tai Gwledig hefyd a all gynghori pobl mewn cymunedau gwledig.

Sut bydd eiddo'n cael ei hysbysebu?

Bydd yr holl eiddo sydd ar gael yn cael ei hysbysebu bob pythefnos. Bydd yr hysbysebion yn agor ar ddydd lau ac yn cau ar y dydd Mercher canlynol.

Cyhoeddir yr hysbysebion mewn papurau lleol (Barry and District, Penarth Times a'r Gem), yn Swyddfeydd Dinesig Y Barri ac ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gofrestru ar gyfer derbyn e-newyddion y Cyngor er mwyn cael gweld yr hysbysebion.

Ar ôl cau hysbyseb, byddwn yn llunio rhestr fer o'r holl gynigwyr, a'r ymgeisydd uchaf ei flaenoriaeth a fydd yn cael cynnig yr eiddo. Os nad yw'r ymgeisydd hwnnw am ei dderbyn, caiff ei gynnig i'r cynigiwr ail uchaf ac felly ymlaen.

Cysylltwch â homes4u

Ffôn... Homes4U Hotline (01446) 709840

Ar-lein... www.valeofglamorgan.gov.uk/homes4u

e-bost... homes4u@valeofglamorgan.gov.uk

Llythyr... Vale of Glamorgan Council
Civic Offices
Holton Road
Barry
CF63 4RU



Dilynwch ni ar Twitter:
@VOGHousing #ValeHousing



Fel ni ar Facebook:
www.facebook.com/VOGHousing



Hwylusydd Tai Gwledig
Rural Housing Enabler

Hwylusydd Tai Gwledig
Elisa Faulkner
01446 709237
efaulkner@valeofglamorgan.gov.uk

Sut dylai aelod o Homes4U ddangos bod ganddo ddiddordeb mewn eiddo?

Mae gan bawb sydd wedi gwneud cais i Homes4U gerdyn aelodaeth a rhif. Pan fydd yr hysbyseb yn agor, bydd aelodau Homes4U yn cynnig am y tai sydd o ddiddordeb iddynt. Gellir cynnig drwy ffonio, anfon ffacs neu neges destun neu drwy fynd i'r wefan.

Sut mae ymaelodi â Homes4U?

Bydd yn rhaid i chi gofrestru â Homes4U drwy lenwi ffurflen gais un ai ar bapur neu ar-lein. Cewch ofyn i swyddog Homes4U eich helpu i lenwi'r ffurflen os mynnwch.

